# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio a nos Fawrth 16eg o Fai 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cyng P Walton, J Phillips, W Evans, D Lewis, G Evans, H James, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**: Dim

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 14eg o Fawrth a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** H James – Eitem 9 Cynllunio, J Lewis (CSC) – Eitem 9 Cynllunio

**MATERION YN CODI:**

Cyng P Walton i barhau fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Gymdeithas Gymunedol.

Dim ateb wedi ei dderbyn oddi wrth Zurich Municipal am bris am yswiriant cyngor. Clerc i gysylltu efo Cleddau Insurance am bris.

**GOHEBIAETH:**

Roedd llythyr a deunydd ategol wedi ei derbyn oddiwrth Mr Crawford-Cummings a oedd yn codi cwestiynau am gred hir dymor y Cyngor Cymuned a'i dealltwriaeth o'i sefyllfa ynglyn a Chomin Llanwinio. Roedd Mr Crawford-Cummings yn bresennol yn y cyfarfod ac fe wnaeth trafodaeth hir gymryd lle.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth CSC ynglyn a'r dull cywir a'r drefn o lenwi sedd gwag ar y Cyngor Cymuned drwy gyfethol. Gan fod sedd wag gan Gyngor Cymuned Llanwinio gofynwyd i'r clerc wneud y trefniadau anghenreidiol.

Daeth cais am wybodaeth oddi wrth CSC ynglyn a'r nifer o weithiau roedd cynghorwyr wedi gwneud datganiadau o ddiddordeb rhwng 1af o Ebrill 2016 a 31ain o Fawrth 2017. Hefyd gofynwyd faint o gynghorwyr oedd wedi derbyn hyfforddiant ynglyn a Chod Ymddygiad am y r'un cyfnod. Clerc i ymateeb.

Hysbysodd CSC fod dau sesiwn o hyfforddiant ar Cod Ymddygiad wedi eu trefnu yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2017.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoddi gwybodaeth am nifer o faterion cyffredinol roedd wedi cael eu codi gan gynghorau yn ystod archwiliad 2015-16.

Cafwyd gwybodaeth cyswllt oddi wrth aelodau'r cynulliad am ganolbarth a gorllewin Cymru – Eluned Morgan a Joyce Watson.

Ysgrifennodd Un Llais Cymru i ofyn an fanylion cyswllt cynrychiolydd y Cyngor ar y Cyfarfodydd Rhanbarthol Chwarterol. Cytunodd Cyng P Walton i gadw ymlaen fel cynrychiolydd y Cyngor.

Danfonodd GIG Cymru wybodaeth hyrwyddol am lawnsiad ei rhif ffon 111 di-argyfwng yn ardal Sir Gar o 2il o Fai sy'n rhoddi mynediad i wasanaeth feddygol allan o oriau.

Derbyniwyd dau ddogfen oddi wrth Un Llais Cymru: 'Model local resolution protocol for Community and Town Councils' a 'Social Media Policy Template'. Penderfynwyd eu cadw ar ffeil hyd nes bod eu eisiau.

Danfonodd Llywodraeth Cymru yr argraffiad diweddaraf o Ganllaw'r Cynghorydd Da ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref. Fe roddir copi electronig ar wefan y Cyngor.

Hysbysodd y clerc y Cyngor fod yr archwiliad mewnol wedi ei gwblhau gan Mr Clinton Henry. Cyflwynodd y clerc i'r Cyngor y Ffurflen Archwilio Flynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017. Cymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon a'r Datganiad Rheolaeth Flynyddol.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| CSC Praesept – rhandaliad 1af | £2000.00 |
| Mr & Mrs Bailey – rhent tir | £10.00 |
| Mr C Robinson – rhent tir | £237.88 |
| Mr G James – rhent tir | £660.44 |
| Watkins Partnership – rhent tir | £78.09 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| K Bowen – cyflog y clerc 01/05/16 – 30/04/17 | £720.00 |
| HMRC – PAYE | £180.00 |

**CYNLLUNIO:**

(Gwnaeth Cyng H James a Cyng J Lewis (CSC) ddatgan diddordeb a chymeront ddim rhan yn y drafodaeth)

W/35364 – Dormer awgrymiedig yn lle ffenest math velux yn Y Berllan, Blaenwaun. CYNLLUNIO LLAWN

(Gwnaeth Cyng H James a Cyng J Lewis (CSC) ail ymuno a'r cyfarfod)

**PROSIECT HAWLIAU FFORDD LLANWINIO:**

Roedd y Gadair wedi derbyn dau lythyr oddi wrth Ms Agoust ond oherwydd fod pob cynghorwr heb eu gweld eto penderfynwyd delio efo nhw yn y cyfarfod nesaf. Clerc i ofyn i Ms Agoust ddanfon unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol at y clerc..

Gofynwyd i'r clerc gysylltu a'r Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad am ddiweddariad ynglyn a'r llwybrau cyhoeddus yn y plwyf.

**U.F.A.**

Gwnaeth un o’r trigolion lleol ofyn os fyddai’n bosibl i’r cofgolofn rhyfel ym Mynwent Llanwinio cael ei chlau ac ail-lythrennu. Clerc i gael prisiau.

Clerc i hysbysu CSC o broblemau heol sydd eisiau eu datrys: tyllau yn yr heol rhwng Passby a Llanwinio, gist halen wedi torri yn agos i Carregwen, Llanwinio.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 18fed o Orffennaf am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**